

## DOGFEN PENDERFYNIAD CAIS AM DRWYDDED ADNODDAU DŴR

### Manylion y cais

Rhif y cais	Rhif y drwydded	Manylion yr ymgeisydd	Cais wedi'i gyflwyno	Cais wedi'i ddilysu
PAN-004233	WA/060/0004/0011	Princes Gate Spring Water Ltd The Well Fields Princes Gate Arberth Sir Benfro SA67 8JD Rhif cofrestru'r cwmni: 8756588	19/12/2018	14/7/2019
PAN-004462	WA/061/0006/0021	Gerald D. Harries & Sons Ltd Rowlands View Tredeml Arberth Sir Benfro SA67 8RG Rhif cofrestru'r cwmni: 04179343	21/1/2019	1/8/2019
PAN-006151	WA/061/0006/0022	Ludchurch Farms Ltd Lhp Chartered Accountants, Winch Lane Hwiffordd Cymru SA61 1RW Rhif cofrestru'r cwmni: 04374329	25/7/2019	21/8/2019
PAN-006133	WA/060/0004/0012	HG & E Jones New House Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro SA67 8JD	22/7/2019	25/9/2019

Mae'r gweithredwr ar gyfer cais rhif PAN-004233 wedi rhoi hysbysiad i CNC bod cynnwys gwybodaeth benodol ar y gofrestr gyhoeddus yn cael ei ystyried yn fasnachol gyfrinachol. Am ragor o wybodaeth, gweler y datganiad canlynol o'r [gofrestr gyhoeddus](#).

### Rhanbarth CNC

Y De-orllewin

### Crynodeb o'r cais

Mae'r ceisiadau uchod am drwyddedau ar gyfer tynnu dŵr wedi'u lleoli mewn ardal a oedd wedi'i heithrio rhag trwyddedu o'r blaen, o dan Orchymyn Awdurdod Afonydd De-orllewin Cymru (Eithriadau rhag Rheolaeth) 1965. Roedd Deddf Dŵr 2003 yn cynnwys darpariaethau i ddileu'r eithriad hwn, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018 yn dilyn cyflwyno [Rheoliadau Tynnu Dŵr \(Darpariaethau Trosiannol\) 2017](#) ("Rheoliadau Trosiannol 2017"). O ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol hyn, cyflwynwyd y ceisiadau trwydded uchod o dan y broses gwneud cais am drwydded drosiannol.

Gwneir penderfyniadau gan CNC ar geisiadau am drwyddedau trosiannol yn unol â Rheoliadau Trosiannol 2017 ac [Ymateb y Llywodraeth yn 2017 i'r](#)

[ymgyngoriad ynghylch newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr: Awdurdodiadau Newydd](#) sy'n nodi'r polisi o sut y dylid trwyddedu tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol. O fewn y polisi hwn, mae pwyslais ar y rheoleiddiwr yn defnyddio dull 'llai manwl' ac i roi trwydded yn seiliedig ar faint o ddŵr a dynnwyd yn hanesyddol yn ôl y dystiolaeth, a thynnu dŵr ond yn cael ei gwtogi'n sylweddol neu ei wrthod er mwyn diogelu'r amgylchedd rhag 'difrod difrifol'. Mae CNC o'r farn bod difrod difrifol yn digwydd lle mae gan dynnu dŵr y potensial i effeithio ar safle dynodedig neu lle nad yw llifau yn cefnogi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adrannau perthnasol isod.

Mae'r dull polisi mewn dau gam, unwaith y bydd y cais yn y system gellir ystyried gweithgareddau tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio cyn hyn ar y cyd â'r holl weithgareddau tynnu dŵr eraill yn y dalgyrch gan ganiatáu i unrhyw faterion cynaliadwyedd yn y dyfodol gael eu nodi a / neu eu hasesu.

Oherwydd diddordeb sylweddol ynghylch effeithiau posibl tynnu dŵr yn yr ardal leol, roedd CNC o'r farn mai penderfynu ar y 4 cais a restrir uchod gyda'i gilydd oedd fwyaf ymarferol, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn un cadarn a chyson a bod yr effeithiau cyfunol posibl yn cael eu hystyried.

### Lleoliad tynnu dŵr a ffynhonnell y cyflenwad

Rhif y cais	Lleoliad y Safle	Ffynhonnell y cyflenwad	Mannau tynnu dŵr - Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol
PAN-004233	The Well Fields Princes Gate Arberth Sir Benfro	Strata tanddaearol yn cynnwys Grŵp Aberdaugleddau	Pwynt A: SN 15789 11562 Pwynt B: SN 15977 11586 Pwynt C: SN 15916 11414 Pwynt D: SN 16034 11455 Pwynt E: SN 15745 11406 Pwynt F: SN 15776 11495
PAN-004462	Chwareli Blaencilgoed a Gelli- Halog Yr Eglwys Lwyd Sir Benfro	Strata tanddaearol yn cynnwys Grŵp Calchfaen Penfro	Ardal A (Blaencilgoed): rhwng Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol SN 15289 10556, SN 15325 10559, SN 15296 10514 ac SN 15328 10515. Ardal B (Gelli-Halog): rhwng Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol: SN 15843 10609, SN 15881 10617, SN 15838 10655 ac SN 15860 10660.
PAN-006151	Ludchurch Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	Strata tanddaearol yn cynnwys Grŵp Aberdaugleddau a Grŵp Afon	Pwynt A: SN 14264 11185 Pwynt B: SN 14201 11267 Pwynt C: SN 14265 11202
PAN-006133	New House Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	Strata tanddaearol yn cynnwys Grŵp Aberdaugleddau.	Pwynt A: SN 15874 11690

### Meintiau tynnu dŵr

Yn unol â Rheoliadau Trosiannol 2017 ac ymateb y Llywodraeth, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth i ddangos eu gweithgarwch tynnu

dŵr yn ystod y 'cyfnod cymhwyso' o saith mlynedd (Ionawr 2011 – Rhagfyr 2017)

Roedd sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r ceisiadau uchod yn codi pryderon ynghylch faint o ddŵr y gwnaed cais amdano o dan y broses drwyddedu drosiannol (gweler 'Sylwadau Allanol' isod). Codwyd pryder penodol mewn perthynas â chais PAN-004233 ynghylch a oedd dŵr ychwanegol yn cael ei dynnu gan / yn cael ei gyflenwi i drydydd parti. Gofynnodd CNC am eglurhad gan y gweithredwr ar y mater hwn ac mae'n deall bod y cynnyrch dŵr potel sy'n cael ei werthu gan y trydydd parti wedi'i gynnwys o fewn y symiau tynnu dŵr y gwnaed cais amdanynt o dan y broses drwyddedu drosiannol.

Mae CNC yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn perthynas â faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu. Fodd bynnag, fel yr uchod, wrth benderfynu ar geisiadau trosiannol, mae CNC wedi ystyried polisi'r llywodraeth ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio o'r blaen. Roedd y polisi yn disgwyl i'r mwyafrif o drwyddedau adlewyrchu gofynion tynnu dŵr hanesyddol rhwng 2011 a 2017, yn amodol ar dderbyn tystiolaeth foddhaol.

Mae CNC wedi asesu'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer pob cais ac mae o'r farn bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos yn ddigonol bod y tynnu dŵr wedi digwydd yn ystod y cyfnod cymhwyso ac yn cefnogi'r symiau y gwnaed cais amdanynt. Crynhoir y rhain yn y tabl isod.

<b>Rhif y cais</b>	<b>Lleoliad y Safle</b>	<b>Cyfradd uchaf enydaidd (litr yr eiliad)</b>	<b>Uchafswm yr awr (metrau ciwbig)</b>	<b>Uchafswm Dyddiol (metrau ciwbig)</b>	<b>Uchafswm Blynnyddo I (metrau ciwbig)</b>
PAN-004233	The Well Fields Princes Gate Arberth Sir Benfro	28.9 litr yr eiliad	104	2,223	313,719
PAN-004462	Chwareli Blaencilgoed a Gelli-Halog Yr Eglwys Lwyd Sir Benfro	120 litr yr eiliad	-	-	-
PAN-006151	Ludchurch Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	-	Amh.	314	96,676
PAN-006133	New House Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	-	Amh.	41.5	11,020

Ar gyfer ceisiadau PAN-004233, PAN-006151 a PAN-006133 mae amodau wedi'u cynnwys yn y trwyddedau i gyfyngu ar faint o ddŵr a dynnir yn unol â'r symiau a nodir uchod h.y. y meintiau a dynnwyd y mae tystiolaeth ar eu cyfer rhwng 2011 a 2017. Bydd yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau fesur, cofnodi ac

adrodd ar faint o ddŵr a dynnwyd, fel y gellir asesu cydymffurfedd â'r amodau hyn.

Mae cais PAN-004462 am drwydded drosglwyddo, ac nid oes gofyniad i nodi meintiau tynnu dŵr ar drwyddedau trosglwyddo. Yn lle hynny, caiff y tynnu dŵr ei reoli drwy fodd amod tynnu dŵr, sy'n pennu uchafswm capasiti'r pypmiau i dynnu dŵr (gweler isod). Nid oes gofyniad ychwaith i gynnwys amodau sy'n ymwneud â mesur neu asesu cyfaint gwirioneddol y dŵr a dynnir ar drwyddedau trosglwyddo. Fodd bynnag, mae CNC yn deall ei bod yn ofynnol i'r gweithredwr fesur a chofnodi faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu ac adrodd ar y symiau i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau bob blwyddyn.

### Dulliau tynnu dŵr

Rhif y cais	Lleoliad y Safle	Dulliau tynnu dŵr
PAN-004233	The Well Fields Princes Gate Arberth Sir Benfro	Chwe twll turio heb fod yn fwy nag 81 metr o ddyfnder a 250 milimetr mewn diamedr gyda darnau wedi'u sgrinio rhwng 12 a 79 metr o dan lefel y ddaear a chyda phypmiau.
PAN-004462	Chwareli Blaencilgoed a Gelli- Halog Yr Eglwys Lwyd Sir Benfro	Tri phwmp suddadwy a chanddynt uchafswm capasiti cyfunol heb fod yn fwy na 120 litr yr eiliad.
PAN-006151	Ludchurch Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	Tri thwll turio heb fod yn fwy na 70 metr o ddyfnder a 200 milimetr mewn diamedr gyda rhan wedi'i sgrinio i 10 metr o dan lefel y ddaear a chyda phypmiau.
PAN-006133	New House Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	Twll turio nad yw'n fwy na 51 metr o ddyfnder a 300 milimetr mewn diamedr wedi'i sgrinio rhwng 20 a 32 metr o dan lefel y ddaear a rhwng 38 a 50 metr o dan lefel y ddaear a chyda phwmp.

### Diben a chyfnod tynnu dŵr

Rhif y cais	Lleoliad y Safle	Dibenion tynnu dŵr	Cyfnod tynnu dŵr
PAN-004233	The Well Fields Princes Gate Arberth Sir Benfro	Masnach potelu dŵr.	Trwy gydol y flwyddyn.
PAN-004462	Chwareli Blaencilgoed a Gelli- Halog Yr Eglwys Lwyd Sir Benfro	Trosglwyddiad at ddiben dad-ddyfrio chwarel.	Trwy gydol y flwyddyn.
PAN-006151	Ludchurch Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	Amaethyddol a Domestig.	Trwy gydol y flwyddyn.
PAN-006133	New House Farm Yr Eglwys Lwyd	Amaethyddol a Domestig.	Trwy gydol y flwyddyn.

	Arberth Sir Benfro		
--	-----------------------	--	--

Roedd sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â cheisiadau PAN-006151 a PAN-006133 yn codi pryderon ynghylch dibenion tynnu dŵr (gweler 'Sylwadau Allanol' isod). Gwnaed cais bod dŵr a dynnir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd fferm yn unig ac nid ei werthu na'i gyflenwi i ddefnyddwyr eraill. Mae amodau wedi'u cynnwys yn y trwyddedau i adlewyrchu'r dibenion a nodir uchod, sy'n golygu mai dim ond at ddibenion domestig ac amaethyddol y gellir defnyddio dŵr ac nid ar gyfer ei gyflenwi neu ei werthu i eraill.

## **Asesiad Effaith**

### Effeithiau cyfunol posibl

Er mwyn asesu effeithiau cyfunol posibl y tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio yn flaenorol sy'n cael eu hystyried yn y ddogfen hon, rhoddwyd ystyriaeth i ffactorau megis lleoliad, pellter, uchder y tyllau turio a ffynonellau dŵr daear. Yn seiliedig ar y ffactorau hyn, mae CNC wedi dod i'r casgliad mai ond i raddau cyfyngedig y bydd y gwahanol dyniadau yn debygol o ddylanwadu ar ei gilydd, ac felly ystyrir effeithiau cyfunol yn annhebygol.

### Effeithiau ar yr amgylchedd dŵr lleol

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau uchod (gweler 'Sylwadau Allanol' isod) yn codi pryderon ynghylch effeithiau posibl tynnu dŵr ar lefelau dŵr daear a llifau dŵr wyneb.

Mae CNC yn cydnabod nad oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i asesu'r effeithiau posibl hyn yn llawn, sy'n rhannol oherwydd bod yr ardal wedi'i heithrio rhag trwyddedu yn flaenorol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cynaliadwyedd adnoddau dŵr lleol gael ei effeithio os tynnir gormod o ddŵr daear o'i gymharu â faint o ddŵr sy'n ailgyflenwi'r corff dŵr daear.

Fel uchod, mae CNC o'r farn mai ond i raddau cyfyngedig y bydd y tynnu dŵr yn debygol o ddylanwadu ar ei gilydd, ac felly ystyrir bod effeithiau cyfunol ar yr amgylchedd dŵr yn annhebygol.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddadansoddiad cysyniadol, mae CNC o'r farn ei bod yn bosibl fod y gweithgaredd tynnu dŵr yn Princes Gate (PAN-004233) yn cael rhywfaint o effaith yn lleol, ond nad oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i CNC i asesu'r effeithiau posibl hyn yn llawn.

Fel uchod, wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau trosiannol, rhaid ystyried y dull polisi ar gyfer ymdrin â thynnu dŵr a oedd wedi'i eithrio'n flaenorol. Mae'r polisi yn awgrymu y bydd cais i dynnu dŵr ond yn cael ei gwtogi'n sylweddol neu ei wrthod er mwyn diogelu'r amgylchedd rhag difrod difrifol. Nid yw CNC yn ystyried bod unrhyw un o'r ceisiadau uchod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer 'difrod difrifol' gan nad oes unrhyw effeithiau posibl ar unrhyw safleoedd dynodedig, ac nid yw'r ceisiadau ychwaith yn gysylltiedig â methiannau llif unrhyw gorff dŵr dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (gweler isod).

Er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau posibl ar lefelau dŵr daear, roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau uchod (gweler 'Sylwadau Allanol' isod) yn awgrymu y dylid "gofyn am ailgyflenwi'r ddyfrhaen". Mae CNC yn cydnabod bod gwerth ystyried y potensial i ailgyflenwi'r ddyfrhaen benodol y caiff dŵr daear ei dynnu ohoni, yn ogystal ag ystyried ein hymrwymiaidau i [ddiogelu Dŵr Daear yng Nghymru](#). Fodd bynnag, ni ystyrir bod ailgyflenwi dŵr o fewn cwmpas y broses drwyddedu drosiannol.

Mae CNC yn deall bod Nestlé UK, sydd wedi caffael cyfran fwyafrifol yn Princes Gate Spring Water Ltd (PAN-004233), wedi gwneud ymrwymiad cenedlaethol i ailgyflenwi'r dŵr y maent yn ei ddefnyddio, er enghraifft trwy raglenni adfer gwlyptiroedd a chadwraeth dŵr. Lle bo modd, bydd CNC yn ymdrechu i gefnogi'r gwaith hwn. Bydd angen asesu unrhyw gynigion ar gyfer ailgyflenwi dŵr yn y dalgylch hwn yn unol â deddfwriaeth a pholisi perthnasol.

Mae'r drwydded a roddwyd mewn perthynas â chais PAN-004462 yn cynnwys amod i sicrhau bod y dŵr *i gyd* a dynnir yn cael ei ollwng i gyrsiau dŵr cyfagos. Mae hyn yn sicrhau bod rhywfaint o gydbwysedd yn y màs dŵr yn cael ei gynnal, er bod hyn mewn perthynas â dŵr wyneb yn hytrach na dŵr daear. Yn ogystal, dylid nodi bod dŵr a dynnir o'r chwareli yn debygol o fod yn gymysgedd o ddŵr daear a dŵr glaw, felly ni fydd y cyfanswm yr awdurdodir ei dynnu yn "*cael ei gollu o'r ddyfrhaen*" fel yr awgrymwyd mewn un sylw.

#### Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Wrth asesu ceisiadau am drwyddedau tynnu dŵr, mae'n rhaid i CNC ystyried unrhyw effeithiau ar statws WFD 2000/60/EC y corff dŵr y mae dŵr yn cael ei dynnu ohono, yn ogystal ag unrhyw gyrff dŵr eraill sydd â chysylltiad hydrolegol. Yn y Deyrnas Unedig, mae Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yn nodi gofynion cyfreithiol gyda'r nod o sicrhau bod pob corff dŵr wyneb yn cyflawni statws ecolegol da neu statws ecolegol da posibl (lle mae corff dŵr wedi'i addasu'n helaeth). Dylai corff dŵr daear fod â statws meintiol da.

Rhestrir y cyrff dŵr daear lle y lleolir y mannau tynnu dŵr ynddynt yn y tabl isod. Mae'r rhain i gyd wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â statws meintiol da<sup>1</sup>. Fodd bynnag, gan na ellir diystyru cysylltedd rhwng dŵr daear a llifau dŵr wyneb, dylid hefyd ystyried statws y cyrff dŵr wyneb sy'n gysylltiedig â nhw, a chaiff hyn hefyd ei ddangos yn y tabl isod.

Rhif y cais	Lleoliad y Safle	Corff Dŵr Daear y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Corff dŵr wyneb y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Statws ecolegol a llif corff dŵr wyneb y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr <sup>1</sup>
PAN-004233	The Well Fields	GB41002G20050	GB11006002	Statws Ecolegol

<sup>1</sup> Mae data dosbarthiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Cylch 2 2015 wedi'i ddefnyddio i sicrhau bod pob cais trosiannol yn cael ei sgrinio a'i asesu a bod penderfyniadau trwyddedu'n cael eu gwneud o'r un set ddata sylfaenol sefydlog. Data dosbarthiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Cylch 2 2015 (a gyhoeddwyd yng Nghynlluniau Rheoli Basnau Afon yr ail gylch ym mis Rhagfyr 2015) oedd y data mwyaf diweddar ar yr adeg pan gafodd eithriadau eu dileu, a phan agorwyd y cyfnod ymgeisio.

	Princes Gate Arberth Sir Benfro	0 afonydd Tywi, Taf a Gwendraeth	9240 Marlais - o'r blaenddyfroe dd i lle mae'n cydlifo ag afon Taf	Da; ystyrir bod llif dŵr wyneb yn ddigonol i gynnal Statws Ecolegol Da.
PAN-004462	Chwareli Blaencilgoed a Gelli-Halog Yr Eglwys Lwyd Sir Benfro	GB41002G20600 0 Calchfaen Carbonifferaidd Sir Benfro	Dim corff dŵr wyneb cysylltiedig	Heb ei asesu.
PAN-006151	Ludchurch Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	GB41002G20600 0 Calchfaen Carbonifferaidd Sir Benfro	GB11006103 0770Ford's Lake - o'r blaenddyfroe dd i derfyn y llanw, Pont- yr-ŵr	Statws Ecolegol Cymedrol; ystyrir bod llif dŵr wyneb yn ddigonol i gynnal Statws Ecolegol Da.
PAN-006133	New House Farm Yr Eglwys Lwyd Arberth Sir Benfro	GB41002G20050 0 afonydd Tywi, Taf a Gwendraeth	GB11006002 9240 Marlais - o'r blaenddyfroe dd i lle mae'n cydlifo ag afon Taf	Statws Ecolegol Da; ystyrir bod llif dŵr wyneb yn ddigonol i gynnal Statws Ecolegol Da.

Ystyrir bod trwyddedu uchafswm faint o ddŵr y gellir ei dynnu yn unol â symiau tynnu dŵr hanesyddol yn cynnal y sefyllfa bresennol. O ganlyniad bydd yn atal unrhyw ddirywiad yn ei statws mewn perthynas â'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.

#### Effeithiau ar Ecoleg a Physgodfeydd

Mae faint o ddŵr y trwyddedir i'w dynnu yn adlewyrchu faint sydd wedi'i dynnu'n hanesyddol. Bydd awdurdodi yr un lefel o dynnu dŵr ag a wnaed yn hanesyddol yn cynnal y sefyllfa bresennol ac felly'n atal unrhyw newidiadau mewn llifau dŵr wyneb / lefelau dŵr daear a allai effeithio ar ecoleg a physgodfeydd.

#### Effeithiau ar ansawdd dŵr

Mewn ymateb i hysbysebu'r ceisiadau, mynegwyd pryderon ynghylch effeithiau posibl ar ansawdd dŵr (gweler 'Sylwadau Allanol' isod).

Mewn perthynas â chais PAN-004233, codwyd pryder penodol ynghylch rhyddhau “*dŵr brwnt a budr*” i ffynnon. Mae CNC wedi trafod y pryder hwn gyda'r gweithredwr a ddywedodd nad yw'n gollwng dŵr i ffynnon ac nad yw'n ymwybodol o'r amgylchiadau ynglŷn â'r gollwng dŵr y cyfeirir ato.

Mewn perthynas â cheisiadau PAN-006151 a PAN-006133, mynegwyd pryderon penodol ynghylch rhyddhau “*dŵr brwnt a budr neu slyri hylifol*” a gwasgaru slyri. O'r wybodaeth a ddarparwyd gyda'r ceisiadau, mae CNC yn deall nad oes unrhyw ddŵr a dynnir yn cael ei ollwng mewn perthynas â'r safleoedd hyn, ac o'r herwydd, nid oes unrhyw ollyngiadau yn cael eu

hawdurdodi yn y trwyddedau trosiannol a roddwyd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn. Felly, mae CNC yn fodlon nad oes unrhyw risgiau i ansawdd dŵr o'r gweithgaredd tynnu dŵr a drwyddedir. Nid yw pryderon ynghylch gwasgaru slyri yn cael eu hystyried o fewn cylch gorchwyl y broses trwyddedu tynnu dŵr trosiannol. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i'r tîm Amgylchedd lleol am y pryderon a godwyd.

Caniateir i Princes Gate Spring Water Ltd ollwng carthion eilaidd wedi'u trin ac elifion masnach (sy'n cynnwys dŵr ffynnon cytbwys) sy'n deillio o weithrediad y safle potelu dŵr i'r ddaear (trwy suddfan a rhyng-gipiwr) ac i isafon Afon Marlais.

Mae safle Blaencilgoed a Gelli-Halog wedi'i awdurdodi i ollwng dŵr wedi'i dynnu i Nant yr Abaty a llednant ddienw i nant Colby.

Mae'r trwyddedau sy'n awdurdodi'r gollyngiadau hyn yn cynnwys amodau i sicrhau nad yw'r gollyngiad dŵr a dynnir yn cael effaith negyddol ar y dŵr wyneb a'r dŵr daear y mae'n cael ei ollwng iddo. Felly, mae CNC yn fodlon bod y trwyddedau presennol ar gyfer y safleoedd hyn yn atal unrhyw risgiau posibl i ansawdd dŵr yn ddigonol.

#### Ymsuddiant

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r ceisiadau uchod yn cynnwys adroddiadau honedig o ymsuddiant (gweler 'Sylwadau Allanol' isod). Mae'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud yn bennaf â chais PAN-004233, er bod y pryderon hyn wedi eu mynegi hefyd mewn perthynas â chais PAN-004462.

Nid oes gan CNC gylch gwaith i reoleiddio ymsuddiant. Os bydd unrhyw golled neu ddifrod yn cael ei achosi oherwydd bod dŵr yn cael ei dynnu, mae adran 48A o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 yn nodi darpariaethau ar gyfer datrysiadau sifil y gellir eu dilyn. Mater i'r unigolyn yr effeithir arno a'r sawl sy'n tynnu dŵr yw hwn.

#### Cyfyngiadau ar dynnu dŵr

Fel y dangosir uchod, mae cyrff dŵr daear y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr y lleolir y manau tynnu dŵr ynddynt wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â statws meintiol da a bod elfen llif y corff dŵr wyneb yn cadarnhau eu bod yn cyrraedd statws da (neu heb ei asesu). Yn y senario hwn, mae Rheoliadau Trosiannol 2017 ac ymateb ategol y llywodraeth yn 2017 yn rhoi disgresiwn i CNC gymhwyso 75% o gyfyngiad llif annibynnol Qn99<sup>2</sup>. Fodd bynnag, nid yw CNC yn gyffredinol o'r farn bod y cyfyngiad llif annibynnol hwn yn briodol gan nad oes digon o dystiolaeth yng Nghymru y byddai'n darparu unrhyw fudd amgylcheddol. Yn ogystal, ni ystyrir yn gyffredinol bod mesuryddion llif yn gweithredu'n ddibynadwy ar lifoedd mor isel, ac felly byddai'n anodd monitro / gorfodi cydymffurfedd ag unrhyw amod. Felly, nid oes unrhyw amodau sy'n cyfyngu ar dynnu dŵr ar lifau isel wedi'u cynnwys yn y trwyddedau.

---

<sup>2</sup> Mae cyfyngiad llif annibynnol o 75% o Qn99 yn golygu amod trwydded sy'n darparu bod rhaid i ddeiliad y drwydded roi'r gorau i dynnu dŵr os yw'r llif yn hafal i, neu'n disgyn islaw 75% o'r llif naturiol yr eir y tu hwnt iddo 99% o'r amser.

O ran cais PAN-004233, mae'r gweithredwr wedi hysbysu CNC bod angen cynnal y lefelau dŵr yn y tyllau turio tynnu dŵr er mwyn sicrhau bod cyn lleied o ddŵr yn cael ei dynnu ac i sicrhau digon o ddŵr o ansawdd briodol ar gyfer y gwaith o roi dŵr mewn poteli. Mae CNC yn deall bod hwn yn ei hanfod yn gyfyngiad oherwydd y dull o weithredu ac y byddai ei angen ta waeth pa amodau a nodir yn y drwydded.

#### Gwaith monitro

Mae CNC yn cydnabod bod asesiad o effeithiau posibl wedi cael ei gyfyngu oherwydd yr angen i ystyried Rheoliadau Trosiannol 2017 a pholisi'r Llywodraeth. Yn ogystal, cydnabyddir nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i asesu'n llawn effeithiau posibl y manau tynnu dŵr sy'n cael eu hystyried yn y ddogfen hon a oedd wedi eu heithrio'n flaenorol. O ganlyniad, mae CNC yn ystyried y byddai monitro strategol yn y dyfodol yn ddefnyddiol.

Fel yr uchod, bydd y trwyddedau a roddir ar gyfer ceisiadau PAN-004233, PAN-006151 a PAN-006133 yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid y trwyddedau fesur, cofnodi ac adrodd ar faint o ddŵr y maent yn ei dynnu.

Yn ogystal, mae'r gweithredwr ar gyfer cais PAN-004233 wedi dweud y bydd yn parhau i fonitro lefelau dŵr daear a bydd CNC hefyd yn ei gynghori i aildechrau gwaith monitro mewn safleoedd perthnasol sy'n peri pryder, gan gynnwys y rhai y cyfeiriwyd atynt yn y sylwadau a gyflwynwyd yn dilyn hysbysebu'r ceisiadau (gweler 'Sylwadau Allanol' isod).

Ar safle Blaencilgoed a Gelli-Halog (PAN-004462), mae CNC yn deall bod gan bob pwmp tynnu dŵr fesurydd sy'n cael ei ddarllen fesul cyfnod o hyd at 28 diwrnod, gyda chyfansymiaid dyddiol a misol yn cael eu cyfrifo ar sail y darlleniadau hyn a'u hadrodd i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau bob blwyddyn hydrometrig. Yn ogystal, mae CNC wedi argymhell bod y gweithredwr yn cynnal gwaith monitro ychwanegol i helpu i ddarparu gwybodaeth am gyfraniadau cymharol glawiad, dŵr ffo a dŵr daear sy'n cael eu tynnu.

Cynghorwyd deiliaid y drwydded i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu cadw ac y bydd gofyn iddynt gefnogi unrhyw gais i amrywio neu adnewyddu'r drwydded yn y dyfodol.

#### Terfyn amser

Mae cyfyngiad amser ar drwyddedau yn unol â Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr y dalgylch berthnasol. Mae hyn yn sicrhau y gellir ystyried unrhyw faterion cynaliadwyedd yn y dyfodol wrth adnewyddu'r drwydded. Cydnabyddir bod bwriad gan y Llywodraeth i ddileu dyddiadau terfyn trwyddedau tynnu dŵr wrth i Adnoddau Dŵr gael eu trosglwyddo i ddod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, fodd bynnag mae'n debygol y bydd y rhain yn cael eu disodli gan adolygiadau dalgylch yn y dyfodol, a fydd yn sicrhau y bydd unrhyw faterion cynaliadwyedd yn parhau i gael eu hystyried.

## Hysbysiadau Statudol

Hysbyswyd yr ymgymwrwr dŵr statudol, Dŵr Cymru Cyfyngedig, o'r cynnig ar 20/4/2021. Ni chafodd CNC unrhyw ymateb.

## Sylwadau allanol

Hysbysebwyd yr holl geisiadau a restrir uchod yn y Tenby, Arberth and Whitland Observer ac ar wefan CNC ar 23/4/2021.

Oherwydd diddordeb lleol sylweddol ynghylch effeithiau posibl tynnu dŵr, rhoddwyd gwybod i bartïon â diddordeb a oedd wedi cysylltu â CNC yn flaenorol ar y mater hwn am yr hysbyseb ac am y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Derbyniwyd pum sylw ffurfiol o ganlyniad i'r hysbyseb, yn ogystal â dau ymholiad pellach. Rhoddir crynodeb isod o'r materion a godwyd ac ym mha adran yr aethpwyd i'r afael â nhw.

<b>Cynrychiolaeth</b>	<b>Adran berthnasol o'r ddogfen penderfyniad</b>
Pryderon ynghylch faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu / y gwnaed cais amdano.	Meintiau tynnu dŵr
Cais i gyfyngu ar dynnu dŵr.	Asesiad Effaith - Cyfyngiadau ar dynnu dŵr
Cais i CNC ystyried yr angen i ailgyflenwi dŵr daear.	Asesiad Effaith – Effeithiau ar yr amgylchedd dŵr
Effeithiau posibl ar nodweddion dŵr lleol.	Asesiad Effaith – Effeithiau ar yr amgylchedd dŵr
Effeithiau posibl ar gyflenwadau dŵr preifat.	Hawliau a ddiogelir
Risg bosibl i ffynhonnell cyflenwad dŵr cyhoeddus.	Hawliau a ddiogelir
Effeithiau posibl yn ymwneud ag ansawdd dŵr	Asesiad Effaith - Effeithiau ar ansawdd dŵr
Effeithiau posibl yn ymwneud ag ymsuddiant tir.	Asesiad Effaith - Ymsuddiant

Lle bo'n berthnasol, hysbyswyd ymgeiswyr o'r pryderon a godwyd ac, os oedd angen, gofynnwyd iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth i alluogi CNC i gwblhau'r broses benderfynu.

Yn ogystal, cafodd y timau Amgylchedd lleol wybod am y materion a godwyd, gan gynnwys y rhai yr ystyriwyd eu bod y tu allan i gwmpas y broses drwyddedu drosiannol.

Mae CNC yn cydnabod y pryderon a godwyd. Mae CNC hefyd yn cydnabod nad oes digon o wybodaeth ar hyn o bryd i asesu'r holl faterion a godwyd yn llawn, sy'n rhannol oherwydd bod yr ardal wedi'i heithrio rhag trwyddedu yn flaenorol. Fodd bynnag, mae CNC wedi ystyried y ddeddfwriaeth a'r polisi ynghylch sut y dylid trwyddedu tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio cyn hyn, sy'n cydnabod bod y tynnu dŵr o'r manau hyn wedi bod yn digwydd yn gyfreithlon. Mae CNC yn fodlon bod yr effeithiau posibl wedi'u hasesu o fewn cyfyngiadau Rheoliadau Trosiannol 2017 a pholisi'r llywodraeth.

Mae CNC o'r farn bod y ceisiadau wedi'u hysbysebu'n briodol a/neu bod ymgynghori priodol wedi digwydd. Mae CNC wedi ystyried y sylwadau'n ofalus ac wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adrannau perthnasol yn y ddogfen hon. Felly ni ystyrir bod angen unrhyw ymgynghori pellach. Bydd y ddogfen penderfyniad hon yn cael ei rhannu â phartion â diddordeb sydd wedi cysylltu â CNC yn flaenorol ynghylch gweithgarwch tynnu dŵr yn yr ardal.

### **Hawliau a ddiogelir a defnyddwyr cyfreithlon**

Mae sgrinio'r asesiad effaith wedi nodi nifer o fannau tynnu dŵr trwyddedig yng nghyffiniau'r manau tynnu dŵr. Mae CNC hefyd yn ymwybodol drwy'r broses hysbysebu o nifer o gyflenwadau dŵr preifat ac un cyflenwad dŵr cyhoeddus yn yr ardal leol a eithriwyd yn flaenorol (gweler 'Sylwadau Allanol' uchod). Yn ogystal, mae ystyriaeth wedi ei roi i'r manau tynnu dŵr cyfagos sydd wedi'u heithrio'n flaenorol sy'n cael eu hystyried yn y ddogfen hon.

Fel uchod, mae CNC o'r farn bod y dylanwad tebygol rhwng y manau tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol ac a ystyriwyd yn y ddogfen hon, yn gyfyngedig, ac felly ystyrir bod effeithiau cyfunol ar fannau tynnu dŵr eraill sy'n bodoli eisoes yn annhebygol.

Ystyrir bod effeithiau unigol o fannau tynnu dŵr ar ffermydd yn annhebygol oherwydd y ddaear leol, pellter oddi wrth fannau tynnu dŵr eraill a symiau tynnu dŵr cymharol isel (PAN-006151 and PAN-006133).

Oherwydd pellter a daear leol, ni ragwelir effeithiau ar fannau tynnu dŵr trwyddedig cyfagos ac a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol o'r gwaith dad-ddyfrio ar safle Blaencilgoed a Gelli-Halog (PAN-004462). Fodd bynnag, ni all CNC ddiystyru effeithiau posibl ar unrhyw gyflenwadau dŵr preifat cyfagos.

Ni nodwyd unrhyw fannau tynnu dŵr trwyddedig yng nghyffiniau safle Princes Gate (PAN-004233). Fodd bynnag, yn seiliedig ar ddadansoddiad cysyniadol, mae CNC o'r farn ei bod yn debygol y bydd tynnu dŵr yn Princes Gate yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar y cyflenwadau dŵr lleol y cyfeirir atynt yn y sylwadau a gyflwynwyd yn dilyn hysbysebu'r cais (gweler 'Sylwadau Allanol' uchod). Ystyrir hefyd ei fod yn debygol o gael effaith negyddol ar y tynnu dŵr a oedd wedi'i eithrio o'r blaen ar fferm New House (er na chodwyd unrhyw bryderon gan yr ymgeisydd).

Roedd sylw a gyflwynwyd yn dilyn y broses hysbysebu yn codi pryderon ynghylch effeithiau posibl ar ffynhonnell cyflenwad dŵr cyhoeddus gerllaw (gweler 'Sylwadau Allanol' uchod). Oherwydd y pellter o'r môr a'r ddaear rhwng y môr a'r lleoliad, mae CNC o'r farn nad oes unrhyw risg i'r ffynhonnell tynnu dŵr o'r manau tynnu dŵr eraill a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol ac sydd wedi eu hystyried yn y ddogfen hon.

Fel uchod, wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau trosiannol, rhoddodd CNC ystyriaeth i bolisi'r llywodraeth ar sut y dylid trwyddedu manau tynnu dŵr a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol, sy'n cydnabod bod y manau tynnu dŵr hyn wedi bod yn gweithredu'n gyfreithlon. Yn ogystal, o

dan Adran 102(5) o Ddeddf Dŵr 2003, gall CNC roi trwyddedau ar gyfer gweithgareddau a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol, hyd yn oed os yw'r tynnu dŵr yn achosi rhanddirymiad neu'n effeithio ar ddefnyddwyr cyfreithlon. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, os bydd unrhyw golled neu ddifrod yn cael ei achosi oherwydd tynnu dŵr, mae adran 48A o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 yn nodi darpariaethau ar gyfer datrysiadau sifil y gellid mynd ar eu trywydd. Mater i'r unigolyn yr effeithir arno a'r sawl sy'n tynnu dŵr yw hwn.

### **Materion cadwraeth**

Mae CNC o'r farn nad yw'r tynnu dŵr a ystyriwyd yn y ddogfen hon a oedd wedi ei eithrio'n flaenorol yn debygol o gael unrhyw effaith ar safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Nid oes unrhyw effaith bosibl ar unrhyw safle Natura 2000, oherwydd maint neu leoliad neu natur y prosiectau.

### **Casgliad ac argymhelliad**

Rhoddwyd ystyriaeth lawn a dyledus i unrhyw sylwadau a wnaed, a rhoddwyd y sylw dyledus i hawliau a ddiogelir a buddiannau cyfreithlon eraill. Gwnaed penderfyniadau ynghylch y ceisiadau yn unol â'r holl ddeddfwriaethau a pholisïau perthnasol.

Ystyrir bod yr amodau a ymgorfforwyd ar y trwyddedau yn angenrheidiol ac yn rhesymol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ac a gyflwynwyd. Ystyrir hefyd bod yr amodau yn gyson â safonau gorfodi addas gan CNC.

Rydym yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn gydnaws â'n diben cyffredinol o fynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn perthynas â Chymru a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### **Cysylltwch â'r tîm CNC sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwn**

**E-bost:** [permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

### **Neu ysgrifennwch at:**

Arweinydd y Tîm Trwyddedu Adnoddau Dŵr  
Y Gwasanaeth Trwyddedu  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP